CYNGOR CYMDEITHAS
LLANNERCH-Y-MEDD
COMMUNITY COUNCIL

**27.1.22**
**7 pm**

# CYFARFOD LLAWN/ *FULL MEETING*
## *Cyfarfod ZOOM*
## *COFNODION*

| | |
|---|---|
| **1** | **Croeso ac Ymddiheuriadau**<br>**Presennol:** JAJ (Cadeirydd); DW; JOJ; TAJ; RJ;IW;AR; DP; GW; EO<br>**Ymddiheuriadau:** DL;DM; BJ<br>**Mynychu:** SWR ; Cyng LLinos Medi<br><br>Penderfynwyd gohirio y CCB (AGM) hyd nes bydd y Cyfrifon am 2020/21 i law gan Swyddfa Archwilio Cymru. |
| **2** | **Datgan Diddordeb**<br>Ni ddatganwyd unrhyw ddiddordeb. |
| **3** | **Cofnodion**<br>Cyflwynwyd a derbyniwyd cofnodion 2/12/21 fel rhai cywir - (DAW/EO)<br>Materion yn Codi<br>**Adolygu Cyllideb a Gosod Praesept**<br>Nododd y Clerc ei bod hi, y Cadeirydd a'r Is gadeirydd wedi llunio Cyllideb draft ar gyfer 2022/23. Aethpwyd drwy y Gyllideb yn fanwl gan gytuno a'r fân addasiadau. Cytunwyd hefyd i'r Clerc holi swyddogion y Clwb Bowlio am gael golwg ar eu mantolen diweddaraf er mwyn cytuno ar gynnwys unrhyw gytundeb rhyngddynt a CCLlan yn y dyfodol.<br>Yng ngoleuni cytuno'r Gyllideb drafft penderfynwyd codi'r Praesept yn unol a chodiad y Cyngor Sir sef 2% (TAJ/DP) cytunwyd yn unfrydol. TAJ i wethrdu'r gwaith papur gyda'r Clerc i'w gyflwyno i CSYM cyn 11.2.22.<br>**Parcio trwy'r Pentref**<br>Adroddod y Clerc ei bod wedi ceisio cyngor Unllais am y parcio heb ganiatad yn safle'r Stesion. Cytunwyd yn unfrydol i gael cymorth cyfreithiol i gysylltu a HJ (perchennog) . Clerc hefyd i holi ein Twrna am |


Mrs Sydna Roberts
Clerc
Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**Ynys Môn LL71 8EG** Ffôn: 01248 470383
sydnaroberts@btinternet.com

| | |
|---|---|
| | y camau i gymryd gyda'r ceir ger Tabernacl nad ydym yn sicr o'u perchnogaeth.<br><br>**Cytundeb Torri Gwair**<br><br>Nododd y Clerc bod bil Rhys Williams am gytundeb 2021 i law a chytunwyd yn unfrydol i'w dalu. Hefyd, mae Mr Williams wedi cadarnhau bellach ei fod am barhau gyda'r cytundeb i dymor 2022. Cytunwyd yn unfrydol i wirio gofynion y gytundeb a chytuno amserlen gyda Mr Williams<br><br>**Aelodaeth Is Bwyllgorau**<br><br><u>Aelodaeth Is Bwyllgor Cyllid</u><br><br>(Cadeirydd cyfredol ) John Jukes; Dafydd Williams; John O Jones; Donna Mlynarczik.; Ann Roberts; Dawn Lovelock; Elfryn Owen<br><br><u>Aelodaeth Is-bwyllgor Safleoedd</u><br><br>(Is-Cadeirydd cyfredol ) Bethan Jukes; Gwyn Williams; Dafydd Parry; Arfon Jones; Robin Jones; Ifan Williams<br><br>Diweddarwyd y Cynllun gweithredu i greu fersiwn 27.1.22 |
| **4** | **Materion Trwy'r Gadair**<br><br>**TAJ** – angen tocio coeden ger Glan Menai – Clerc i chwilio am gontractwr.<br><br>- Dau bolyn golau angen sylw yn Stryd Coedwig – RJ yn nodi bod Môn Williams Swyddog CSYM wedi cael y wybodaeth eisoes.<br>- Angen trwshio y rheiliau ger maes parcio Capel Jerisalem – GW yn cytuno i weithredu<br><br>**AR** – nododd cydymdeimlad a GW/DW a Mrs Williams Wenllys a'r eu profedigaeth ddiweddar o golli Eddie Williams.<br><br>- Nododd bod gwaith wedi mynd rhagddo ar osod tarmac ger Joint Houses. Holodd os oes modd cael gwybodaeth am raglen waith unrhyw welliannau i gyflwr ffyrdd yn yr ardal. Cytunodd LLMH i rannu unrhyw wybodaeth sydd ar gael gan Adran Priffyrdd<br><br>**DP** – holodd am sefyllfa gosod drych diogelwch ym Mheniel. Nodwyd bod BJ am holi y gymdogaeth – Clerc i holi am ddiweddariad.<br><br>- Gwagio bin gwyrdd Eglwys Coedana – nododd nad yw'r bin yn cael ei wagio – cytunodd LLMH i holi Adran Gwastraff<br>- Ategodd y cydymdeimlad i deulu Wenllys a'r diolch iddynt am |


Mrs Sydna Roberts
sydnaroberts@btinternet.com
Clerc
Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**Ynys Môn LL71 8EG** Ffôn: 01248 470383

| | |
|---|---|
| | nodi Cronfa Plant Ysgol Llan i dderbyn rhoddion er cof.<br><br>**JOJ –** nododd bryder am 3 damwain (Dafarn Botel/Geyrn/a tro Chwaen Bach) wedi digwydd ers y Nadolig ar ffordd Carmel. Adroddodd bod y gymdogaeth yn pryderu'n fawr am or-yrru ar hyd y ffordd ac yn arbennig o gofio bod bysiau ysgol yn defnyddio'r ffordd. Cytunodd y Clerc i anfon copi o'r llythyr gwreiddiol anfonwyd at Adran Priffyrdd at LLMH ac y byddai hithau'n codi'r mater eto gyda'r Adran.<br><br>- Pryderon bydd sefyldu Fferm Solar Llechcynfarwy yn ychwangu at y broblem trafnidiaeth. Cytunwyd i'r Clerc anfon llythyr at y Gweinidog yn mynegi y pryderon gan mai Llywodraeth Cymru fydd yn penderfynu a'r y materion cynllunio hyn<br><br>**RJ –** holodd oes oedd gwybodaeth am y bocs sydd ar y ffordd ger Bryn Difyr. Cytunodd i edrych eto a cheisio darganfod ei ddefnydd.<br><br>**DW** – adroddodd bod tenant ym Maes Ceidio wedi cysylltu yn pryuderu'n fawr am sefyllf parcio yno. Nodwyd bod CCLlan wedi nodi y pryder am ddiffyg mynediad i gerbydau brys pe cyfyd yr angen, yn arbennig gyda'r nos pan fo mwy o gerbydau wedi parcio yna. Holodd os oes modd i denantiad gael safle parcio wedi ei glustnodi yn eu gerddi? Cytunwyd i'r Clerc gysylltu a Ned Michael Pennath Tai.<br><br>**LMH** – adroddodd nad yw data cyfredol COVID 19 yn cyd-fynd gyda'r sefyllfa ar yr Ynys a phwysleisiodd i bawb barhau i fod yn wyliadwrus.<br><br>- Nododd hefyd bod nifer o swyddi yn cael eu hysbysebu yn y Cyngor Sir ac annogodd yr aelodau i rannu'r wybodaeth yn y gymuned. |
| **5** | **Materion Cyllidol a Thaliadau**<br><br>**Taliadau Misol**<br>**Gwariant ers cyfarfod Rhagfyr** — **£**<br>MSI Alarms – archwiliad larwm diogelwch — 105<br>HJT Elecrtrical – gwaith trwshio cyfarfpar trydanol yn y Caffi — 297.53<br>Caffi Stesion – talu am brydau Dolig i'r Gymuned trwy grant COVID — 448.50<br>GL Jones – cyfarpar chwarae newydd Cae Gofeb — 214.80<br>**Biliau cyfredol:** — **£**<br>Torri Gwair –cytundeb 2021 — 2758.00 |
| **6.** | **Materion Cynllunio** |


Mrs Sydna Roberts
Clerc
Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**Ynys Môn LL71 8EG** Ffôn: 01248 470383
sydnaroberts@btinternet.com

| | |
|---|---|
| | Nododd y Clerc ei bod wedi rhannu gwybodaeth bellach am gais cynllunio Ty'n Ffynnon a bod yr Adran Cynllunio wedi ei holi am nifer y ceir sydd yn parcio ar Ffordd Caergybi. |
| **7** | **Unrhyw Fater Arall –** dim i law<br><br>**Llwybrau'r Fynwent** – nododd y Clerc bod cynlluniau gan RPO Williams i law ac wedi eu cylchredeg eisoes.  Yn dilyn trfodaeth ac yng ngoleuni'r angen pendefynwyd yn unfrydol i fwrw 'mlaen a'r gwaith i gyd am gost oddeutu £8K fel a nodwyd yn y cynllun.<br><br>*Daeth y cyfarfod i ben am 8.45 pm* |


Mrs Sydna Roberts
sydnaroberts@btinternet.com
Clerc
Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**Ynys Môn  LL71 8EG** Ffôn:  01248  470383